



Ein cyf/Our ref MA/JH-/0928/23

Elin Jones AS
Llywydd - Senedd Cymru
Llywydd@senedd.cymru

23 Mawrth 2022

Annwyl Elin,

Cyflwynodd yr Ysgrifennydd Cartref, Suella Braverman AS, y Bil Mudo Anghyfreithlon (y Bil) yn Nhŷ'r Cyffredin ar 7 Mawrth.

O'n dadansoddiad cychwynnol, mae'r Bil yn ymdrin â meysydd o gymhwysedd datganoledig. Mewn llythyr ataf ar y 7 Mawrth, dywedodd y Gweinidog dros Fewnfudo, Robert Jenrick AS, fod Llywodraeth y Deyrnas Unedig o'r farn bod holl gynnwys y Bil yn ymwneud â materion a ddargedwir. Felly, nid yw Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn gofyn am gydsyniad y Senedd i'r Bil.

O ystyried y diffyg trafodaeth ystyrion gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig cyn cyflwyno'r Bil, a chymhlethdod y materion a godwyd yn y Bil, nid yw eto wedi bod yn bosibl rhoi ystyriaeth briodol i ganlyniadau'r hyn sy'n cael ei gynnig o safbwynt datganoli.

Mae gen i bryderon mawr bod gan y Bil y potensial i dorri rhwymedigaethau rhyngwladol ac mae angen dadansoddi pellach i gadarnhau ein safbwynt. Nid yw Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi gallu datgan bod y Bil yn cydymffurfio â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, ac mae Asiantaeth Ffoaduriaid y Cenhedloedd Unedig yn honni bod y Bil yn torri Confensiwn Ffoaduriaid 1951.

Rwy'n disgwyl gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gerbron y Senedd cyn gynted cyn gynted ag y cawn ddarlun clir o ganlyniadau'r ddeddfwriaeth arfaethedig o safbwynt datganoli. Fodd bynnag, mae hyn y tu hwnt i'r dyddiad cau arferol o bythefnos sydd yn Rheol Sefydlog 29. Rydym yn disgwyl gallu darparu Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn fuan cyn toriad Pasg Senedd Cymru. Rydym yn rhagweld y bydd y Mesur yn mynd ymlaen i Dŷ'r Arglwyddi tua'r un pryd â'r wythnos gyntaf ar ôl i Senedd Cymru ddychwelyd.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Prif Weinidog, y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru a'r Trefnydd, Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol a Chadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink that reads "Jane Hutt". The signature is written in a cursive style with a long horizontal line above the first few letters.

Jane Hutt AS/MS

Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol
Minister for Social Justice